# Anabledd Dysgu Cymru Adolygiad blynyddol

Ebrill 2021 – Mawrth 2022




**Hawdd ei Ddeall Cymru, dylanwadu ar bolisi, hyfforddiant a digwyddiadau, Engage to Change, Ffrindiau Gigiau Cymru, Senedd Ieuenctid Cymru, cefnogi rhieni gydag anabledd dysgu, Pobl yr 21ain Ganrif a llawer mwy**

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Negeseuon croeso | tudalen 3 |
| Rhoi gwybodaeth i chi | 5 |
| Hawdd ei Ddeall Cymru | 6 |
| Dylanwadu ar bolisi | 7 |
| Engage to Change | 9 |
| Hyfforddiant a digwyddiadau | 12 |
| Ffrindiau Gigiau Cymru | 14 |
| Pobl yr 21ain Ganrif | 18 |
| Gofalu am lesiant ein staff | 22 |
| Ein Staff | 23 |
| Ein hymddiriedolwyr ac aelodau | 24 |
| Sut y gwnaethon ni wario ein harian | 25 |
| Ein blwyddyn mewn rhifau | 26 |





**Rydym eisiau i Gymru fod y wlad orau i bobl gydag anabledd dysgu i fyw, dysgu a gweithio ynddi**

## Cadw mewn cysylltiad


Anabledd Dysgu Cymru, 41 Lambourne Crescent, Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd CF14 5GG
Ffôn: 029 2068 1160 www.ldw.org.uk

Cwmni cyfyngedig drwy warant: 02326324
Elusen Gofrestredig: 1062858
Rhif Cofrestredig TAW: 762 4559 11

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

enquiries@ldw.org.uk
/learningdisabilitywales
@LdWales



# Neges groeso

## Gan ein Cadeirydd Jon Day

Rwy'n ysgrifennu hwn wrth agosáu at ddiwedd fy ail flwyddyn lawn yn Gadeirydd y sefydliad gwych hwn. Rwy'n parhau i ryfeddu at wytnwch a gallu'r sefydliad i gyfrannu at gynifer o feysydd gwaith pwysig ac arwain arnynt, nid yn unig fel rhan o'n busnes craidd ond hefyd y gwaith arbenigol pwrpasol, y gofynnir i ni fod yn rhan ohono.

Mae ein ffocws yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn wynebu tuag i mewn ac yn wynebu tuag allan, ac yn briodol felly. Er mwyn inni gyflawni galwadau'r agenda a osodwyd inni gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â diwallu anghenion ein haelodau, ein rhanddeiliaid a'n partneriaid, bu'n rhaid i ni sicrhau bod gennym dîm sy'n teimlo'n wirioneddol werthfawr, oherwydd heb hyn, ni allwn wireddu ein huchelgais. I'r perwyl hwn, rydym wedi gwneud sawl penderfyniad i sicrhau bod gennym dîm sy'n cael cefnogaeth dda, gyda'r strwythur cywir a'r telerau a'r amodau modern i helpu gyda recriwtio a chadw staff gan gynnwys cefnogaeth briodol ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant parhaus.

Yn yr un modd, pan edrychwn tuag allan yna gobeithiaf fod y tudalennau canlynol yn dangos y gwaith rhyfeddol y gwnaeth y tîm i gyflawni ein nodau a'n hamcanion gyda'r weledigaeth eithaf o wneud Cymru yn lle gwell i bawb sydd ag anabledd dysgu i fyw, dysgu a gweithio ynddi.

Cawsom ymgyrch recriwtio ymddiriedolwyr llwyddiannus y llynedd ac am y tro cyntaf ers amser maith cawsom gyflenwad llawn ar ein bwrdd ymddiriedolwyr, gyda rhywfaint o dalent anhygoel yn ymuno â ni i gefnogi gwaith ein hymddiriedolwyr presennol. Eleni mae'n bosib y byddwn yn colli ystod o sgiliau a phrofiad o'n bwrdd wrth i ymddiriedolwyr allweddol sefyll i lawr ond rydym yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd ein recriwtio yn denu ymgeiswyr addas sy'n ychwanegu cryfder a gwytnwch i'n bwrdd.

Ar nodyn personol, hoffwn ddweud 'diolch' eto i'r ymddiriedolwyr a'r staff sy'n gwneud fy rôl fel Cadeirydd Anabledd Dysgu Cymru mor hawdd. Er ein bod i gyd yn cydnabod yr heriau sydd o'n blaenau, rydym hefyd yn cydnabod y cyfleoedd y mae angen inni eu dal gyda'r ddwy law.



# Neges groeso

## Gan ein Prif Weithredwraig, Zoe Richards

Newid yn barhaus ydy rhywbeth rydym wedi dod i ddisgwyl yn ein gwaith yn Anabledd Dysgu Cymru, yn enwedig yn y blynyddoedd diwethaf. Daeth addasu, dysgu, bod yn greadigol a "dal ati yno" yn ffordd o fyw wrth inni barhau i ddod o hyd i'n ffordd a chefnogi ein cymuned i ddelio ag effaith y pandemig.

Roedd bywydau pobl wedi newid ac roedden ni'n ceisio cynllunio ar gyfer y dyfodol ar adeg pan nad oeddem yn gwybod beth fyddai gan yfory i'w gynnig. Er hyn, daethom yn greadigol gan ddysgu ffyrdd newydd o gyrraedd pobl a chefnogi ein haelodau. Roedd gennym hyd yn oed amser i fod yn fyfyriol a dechreuon ni weithio gyda'n haelodau i adolygu'r hyn rydyn ni'n ei wneud, sut rydyn ni'n ei gynnig a beth fyddai nesaf.

I'n haelodau, roedd yr angen am wybodaeth hygyrch o ansawdd da yn parhau i fod yn flaenoriaeth. I lawer, doedd y cyfyngiadau ddim wedi eu codi eto ac roedd llawer o bobl ag anabledd dysgu yn teimlo eu bod wedi cael eu heffeithio fwy nag eraill. Roedd yr angen i ddod at ei gilydd i herio polisi ac ymarfer yn parhau i fod yn bwysig tra bod yr angen i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i ddychwelyd i gael mynediad i'r gymuned wedi'i gydbwyso'n ofalus gan gydnabod nad oedd hyn yn bosibl i rai.

Arweiniodd Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu a gwnaethom fwydo i mewn i'r gwaith hwn ochr yn ochr â phartneriaid. Mae yna awydd i fod yn weledigaethol ond ofnwn y gallai'r cynllun fod heb uchelgais i'r rhai rydyn ni'n eu cefnogi. Rydym yn edrych ymlaen at weld y cynllun gweithredu terfynol ac yn parhau i gefnogi ei ddatblygiad.

Arweiniodd ein projectau y ffordd wrth gefnogi pobl drwy ddigwyddiadau digidol, ffyrdd newydd a hwyliog o weithio, hyfforddi i ddeall sut rydym yn gweithio, ac i ofalu am ein hunain yn wahanol yn ystod pandemig. I rai pobl roedd y pethau hynny'n achubiaeth hanfodol.

Mae ein tîm wedi gweithio'n ddiflino i hysbysu a chynrychioli ein haelodau. Mae'n bwysig cydnabod bod gwaith caled ac ymroddiad y tîm i bopeth maen nhw'n ei wneud o'r safon uchaf ac rwy'n cyfrif fy hun yn lwcus i fod yn rhan o dîm mor angerddol a gweithgar.

Mae ein bwrdd ymddiriedolwyr wedi parhau i arwain a chefnogi'r sefydliad gyda chywirdeb a chraffu er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ein gwerthoedd ac yn gwasanaethu ein haelodau.

Mae wedi bod yn flwyddyn arall o heriau ac rydyn ni wedi dysgu bod yn fwy caredig i'n gilydd ac i'n hunain. Rydym hefyd wedi canfod hyder wrth fod yn fwy beiddgar yn y ffordd rydyn ni'n gweithio, gan greu atebion arloesol i rwystrau. Rydym wedi denu cyllidwyr newydd ac wedi derbyn cyllid estynedig gan y rhaglenni presennol. Edrychwn ymlaen at gysylltu â chi a dod at ein gilydd yn y dyfodol.

# Rhoi gwybodaeth i chi

Ar ddechrau'r pandemig yn 2020 fe wnaethon ni addasu ein gwaith mewn hwb gwybodaeth a hawdd ei ddeall, gan ganiatáu inni roi ymdrechion y tîm cyfan i gadw gwybodaeth a chysylltiadau ein haelodau a'n cynulleidfa ehangach.




Parhaodd y gwaith hwn eleni, gan sicrhau y gallem eich diweddaru gyda datblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â Covid-19, fel y broses o gyflwyno'r brechlyn a newid rheolau. Fe wnaethon ni hefyd helpu sefydliadau allweddol, fel Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i wneud yn siŵr bod gwybodaeth a gynhyrchwyd ganddynt am Covid-19 yn hygyrch i bobl ag anabledd dysgu.

Enghreifftiau o gyhoeddiadau hawdd eu deall am Covid-19 y buom yn rhan o'u cynhyrchu:

- Nôl i fywyd cymunedol - canllaw i helpu pobl i fynd allan eto ar ôl Covid-19
- Brechlyn Covid-19 - canllaw i blant a phobl ifanc
- Ar ôl eich brechlyn Covid-19
- Canllaw hawdd ei ddeall i bob menyw sy'n feichiog, bwydo ar y fron neu'n bwriadu beichiogi - mae'r daflen hon yn dweud wrthych am y brechlyn Covid-19
- Brechlyn atgyfnerthu Covid-19.



# Hawdd ei Ddeall Cymru




**Cawsom gyfle i weithio gydag amrywiaeth o gleientiaid newydd eleni. Mae wedi bod yn wych gweld mwy o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn meddwl mwy am wybodaeth hawdd ei ddeall a gwybodaeth hygyrch.**




Mae llawer o'n gwaith wedi bod gyda sefydliadau fel byrddau iechyd, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cefnogi pobl sydd ag anabledd dysgu i:

- Cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar gyfreithiau a phenderfyniadau pwysig yng Nghymru.
- Gwneud penderfyniadau gwybodus am sgrinio iechyd a gofalu am eu hiechyd eu hunain.
- Deall effaith coronafeirws ar wahanol grwpiau o bobl a sut mae gwasanaethau wedi addasu.
- Manteisio ar gyllid ar gyfer nifer o wahanol fathau o brosiectau, yn y celfyddydau a gwleidyddiaeth.
- Rhoi eu hadborth a'u barn am wahanol wasanaethau a sut mae bywyd wedi bod iddyn nhw.
- Cael mynediad at wasanaethau, cael y cymorth sydd ei angen arnynt, a chymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol.

Hon oedd ein hail flwyddyn yn cydweithio fel tîm newydd o 3. Gwnaethom setlo i'n swyddi newydd a gofynnwyd i Inacia a Julie weithio oriau ychwanegol i ateb gofynion y gwasanaeth. Edrychwn ymlaen at flwyddyn brysur arall i ddod ac yn gobeithio gweld mwy a mwy o sefydliadau yn dechrau darparu gwybodaeth hawdd ei ddeall a hygyrch.

# Dylanwadu ar bolisi



## Ymgynghoriadau

Buom yn ymateb i 22 ymgynghoriad gwahanol gan Lywodraethau Cymru a'r DU a phwyllgorau Senedd Cymru. Er enghraifft, gwnaethom ofyn i Lywodraeth y DU amddiffyn hawliau dynol pobl yn ein hymatebion i ymgynghoriadau ar ddiwygio'r system fudd-daliadau a diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Fe wnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru wreiddio hygyrchedd i bob agwedd ar addysg drwy ymgynghoriadau ar Gwricwlwm Cymru, y Bil Addysg Trydyddol a Phrentisiaethau a Rennir.

Roeddem yn eiriol dros bobl LHDTC+ sydd ag anabledd dysgu yn ein hymatebion i ymgynghoriadau ynghylch gwahardd therapi trosi a Chynllun Gweithredu LGBTQ Cymru.

## Grŵp Polisi Anabledd Dysgu

Fe wnaethom hwyluso'r Grŵp Polisi Anabledd Dysgu ar gyfer arweinwyr polisi yn y sector i drafod materion sy'n deillio o'r pandemig gan gynnwys brechlynnau, newidiadau i reolau, ailagor gwasanaethau ac ati.

Parhawyd i gynyddu ein cyfathrebu a'n hymgysylltiad trwy flogiau, erthyglau ac eitemau ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae gennym 4442 o bobl yn hoffi a 5233 o ddilynwyr ar Facebook, a 7901 o ddilynwyr ar Twitter.

## Consortiwm Anabledd Dysgu

Fel rhan o'r Consortiwm Anabledd Dysgu, fe wnaethom barhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar faterion sy'n effeithio bywydau pobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd yn ystod y pandemig.

Bu i'r Consortiwm Anabledd Dysgu gynyddu ei gyfarfodydd i 4 y mis gan ehangu ei aelodaeth er mwyn cynnwys Cymorth Cymru a'r Gymdeithas Syndrom Down. Bu'r grŵp yn cyfarfod ddwywaith y mis gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru tra bod y 2 gyfarfod arall yn 3ydd sector yn bartneriaid yn unig. Rydym yn arwain a chydlynu'r cyfarfodydd hyn ac wedi dod â rhanddeiliaid,

partneriaid, academyddion a llunwyr polisi ynghyd er mwyn sicrhau bod llais pobl sydd ag anabledd dysgu, teuluoedd, gofalwyr a sefydliadau cymorth yn bresennol mewn polisi ac arweiniad Covid-19.

## Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu

Parhawyd i gynrychioli ein haelodau a'n rhanddeiliaid mewn 6 cyfarfod o'r Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu (LDMAG) trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys gweithdai sy'n edrych ar y cynllun gweithredu strategol drafft ac effaith polisi anabledd dysgu ar gymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Roedden ni'n ymwneud â datblygu Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu newydd Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys bwydo i'r hyn a fyddai'n dod yn feysydd blaenoriaeth allweddol gwaith a chyflwyno tystiolaeth ar gyflogaeth ac archwiliadau iechyd blynyddol.

## Camfanteisio rhywiol ar blant

Gwnaethom weithio gyda Sefydliad Lucy Faithful i gynhyrchu fersiynau hygyrch o'u gwybodaeth fel rhan o'r ymgyrch 'Stop It Now' i gadw plant yn ddiogel rhag cael eu hecsbloetio'n rhywiol.

## Prosiect ymchwil Covid

Parhawyd i weithio gyda phartneriaid ar gamau 2 a 3 o'r astudiaeth ymchwil. Fel rhan o gam 2, fe wnaethom helpu i recriwtio rhai cyfranogwyr newydd (pobl ag anabledd dysgu a'u gofalwyr) i gymryd rhan yn y cyfweliadau am eu profiadau yn ystod y pandemig. Ar gyfer cam 3 yr astudiaeth ni chafodd unrhyw gyfranogwyr newydd eu recriwtio ond roedd cyfranogwyr blaenorol unwaith eto naill ai'n cael eu cyfweld neu'n cael cais i gwblhau'r arolygon.

Fe wnaethom gynnal 2 ddigwyddiad ar-lein i archwilio canfyddiadau pob cam yn yr astudiaeth. Gyda dros 170 o bobl i gyd, clywodd y digwyddiadau gan siaradwyr arbenigol sy'n rhan o'r astudiaeth, yn cynnwys ymchwilwyr, pobl ag anabledd dysgu, gofalwyr teuluol a staff cymorth, am yr hyn y mae'r ymchwil wedi'i ganfod a sut y gallwn ddefnyddio'r dysgu hwn i lywio dyfodol gwell i bobl ag anabledd dysgu.

Yn ôl yr astudiaeth, cafodd pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru, a'u teuluoedd/cefnogwyr, lu o effeithiau negyddol yn ystod y pandemig oedd yn dipyn mwy dwys na'r boblogaeth gyffredinol. Roedd yr effeithiau negyddol hyn yn cynnwys llai o wasanaethau a chefnogaeth, gan gynnwys llawer o bobl yn methu cael archwiliad iechyd blynyddol; mwy o bryder ac unigrwydd; a gostyngiad difrifol mewn gweithgareddau cymdeithasol a pherthnasoedd. Roedd pob un ohonynt yn ei dro yn ychwanegu mwy o bwysau ar ofalwyr teulu. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2022, a'i rannu'n eang gyda llunwyr polisi, rhanddeiliaid ac unigolion perthnasol eraill.

Ym mis Awst 2022 cyhoeddwyd bod yr astudiaeth yn cael ei hymestyn i gynnwys y pedwerydd cam terfynol.

# Engage to Change

engagetochange.org.uk
/engagetochangewales
@Engage_2_Change

Parhaodd Engage to Change i dderbyn atgyfeiriadau ac i ddarparu gweithgaredd drwy gydol chweched flwyddyn y prosiect, trwy gymysgedd o waith o bell ac wyneb yn wyneb oherwydd y cyfyngiadau pandemig newidiol.

Wrth i gyfyngiadau ddechrau cael eu codi, roedd mwy o gyfleoedd am leoliadau gwaith a swyddi â thâl, a mwy o bobl ifanc i gymryd rhan ynddynt.

Cyhoeddodd ein tîm gwerthuso yn y Ganolfan Genedlaethol Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Caerdydd adroddiad ar 4 blynedd gyntaf y prosiect. Fe wnaethom gynnal digwyddiad rhanddeiliaid digidol er mwyn lansio'r adroddiad a fynychwyd gan Hefin David, Aelod o'r Senedd dros Gaerffili.

Drwy gydol y flwyddyn roeddem yn mynychu a chyflwyno mewn digwyddiadau digidol, yn cynnwys cynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru, a digwyddiad i nodi Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau. Er bod y mwyafrif o ddigwyddiadau a chyfarfodydd wedi parhau i fod yn rhithiol, llwyddodd ein Llysgennad Arweiniol, Gerraint Jones-Griffiths, i gwrdd â grwpiau o interniaid wyneb yn wyneb yn ogystal ag ar-lein wrth gynnal Awr Hwyl reolaidd.

Ymwelodd ein Swyddog Cyfathrebiadau Sophie Williams, â phobl ifanc o bob rhan o'r project a chynhyrchu fideos ac astudiaethau achos rhagorol i arddangos eu dilyniant a'u cyflawniadau. Gallwch wylio'r fideos hyn yn engagetochange.org.uk.

## Gwaith polisi cyflogaeth Engage to Change

Casglodd ein gwaith polisi fomentwm drwy gydol y flwyddyn wrth i ni lobïo am gyflwyno rhaglen Genedlaethol Hyfforddi Swyddi ac Interniaeth â Chymorth. I gefnogi'r gwaith hwn cawsom gyfarfod â gweision sifil Llywodraeth Cymru, a sicrhau cyfarfod gyda Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi.

Roedd ein gwaith polisi'n ddylanwadol yn:


- Mae cynllun peilot hyfforddeiaeth ar gyfer plant 16-18 oed a ariennir gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth hyfforddwyr swyddi a ddarperir gan ein partneriaid cyflogaeth â chymorth Agoriad a ELITE, a grant i gyflogwyr. Yna cafwyd cadarnhad y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y rhaglen newydd Twf Swyddi Cymru sy'n dechrau ym mis Ebrill 2022.
- Cynllun peilot prentisiaeth gyda chymorth hyfforddwyr swyddi a ariennir gan

Lywodraeth Cymru, yn cael ei ddarparu gan Agoriad ac ELITE, a chymhelliant i gyflogwyr. Cadarnhawyd y byddai hyn yn parhau am y dyfodol rhagweladwy.

- Datblygwyd Prentisiaeth â Chymorth a Rennir gyda 5 o hyfforddwyr swyddi a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ac fe fydd yn mynd allan i dendr, gyda dyddiad cychwyn o 1 Awst 2022.
- Yn ystod eleni, cyflwynwyd cwricwlwm Sgiliau Byw'n Annibynnol newydd i Golegau Addysg Bellach, a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys interniaethau a gefnogir gan 'Llwybr 4', gyda chymorth hyfforddwyr swyddi wedi'i gynnwys. Bu ein rheolwraig prosiect, Angela Kenvyn, yn cydweithio gyda Colegau Cymru a cholegau Addysg Bellach i ddatblygu safonau ansawdd a chanllaw i'r colegau i'w defnyddio.
- Ddiwedd eleni, roeddem yn falch iawn o weld cynnwys cymorth hyfforddiant swyddi arbenigol dwys i bobl ag anableddau dysgu sylweddol yng Nghynllun Cyflogaeth a Sgiliau newydd Llywodraeth Cymru.

Fe wnaethom ymateb i sawl ymgynghoriad a chymryd rhan yng Ngweithgor Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru a Fforwm Mynediad at Waith Cymru.

Buom hefyd yn gweithio gyda Thîm Trawsnewid Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru, sy'n cyd-gynhyrchu Strategaeth Gyflogaeth 5-mlynedd i Bobl ag Anabledd Dysgu. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar dystiolaeth, rhywfaint ohono o'r dysgu o Engage to Change, ac mae'n cynnwys interniaethau â chymorth a chyflogaeth â chymorth (gyda chymorth hyfforddwyr swyddi).



## Engage to Change:

# Ffion yn cael llwyddiant fel prentis

**Ymunodd Ffion, 24 oed, â'r Prosiect 'Engage to Change' ar ôl iddi gael trafferth dod o hyd i waith ar ôl gadael addysg llawn amser.** Drwy'r prosiect, cefnogwyd Ffion gan Kayleigh, sy'n Ymgynghorydd Cyflogaeth, i ddod o hyd i swyddi addas. Ym mis Hydref 2019, dechreuodd Ffion leoliad mewn ale bowlio lleol, XL Bowl. Mwynhaodd Ffion y rôl ac roedd yn dod ymlaen gyda'r tîm. Ond daeth gobeithion Ffion o weithio yn yr ale fowlio i ben pan gaeodd y lleoliad oherwydd pandemig Covid-19.

Gydol y cyfnodau clo, parhaodd Ffion i weithio gyda Kayleigh i ddatblygu ei sgiliau cyflogaeth. Bu Kayleigh hefyd yn gweithio gyda Ffion i chwilio am unrhyw swyddi gwag addas. Daeth Ffion ar draws swydd wag gydag elusen leol o'r enw Cerebra, gyda'r cyfle i gwblhau Prentisiaeth Gweinyddu Busnes Lefel 2 NVQ. Roedd Ffion yn frwdfrydig i allu ennill arian a dysgu ar yr un pryd. Cafodd Ffion gefnogaeth wrth ymgeisio am y rôl a llwyddodd i sicrhau cyfweliad. Wedi cyfweliad llwyddiannus, cafodd Ffion gynnig rôl Cynorthwy-ydd Llyfrgell.

Cafodd Ffion gefnogaeth yn ei swydd newydd gan ei Hyfforddwr Swyddi, a'i helpodd i setlo yn ei swydd newydd a dysgu agweddau gwahanol o'r swydd. Mae Ffion wedi setlo i'w rôl yn dda ac yn



**"Ar hyd fy oes, dwi wedi bod yn derbyn negyddiaeth fy hun a ddim yn derbyn positifrwydd fy hun, ac erbyn hyn mae'n hollol wahanol."**

mwynhau gweithio fel rhan o dîm Cerebra. Mae Ffion yn dweud ei bod "yn teimlo fel person gwahanol" ers iddi ddechrau ei phrentisiaeth, sydd wedi ei gwneud hi'n llawer hapusach ac yn fwy annibynnol. Meddai Ffion, "Mae wedi bod yn bleser pur bod yn rhan o elusen sy'n cefnogi pobl sydd â chyflyrau niwrolegol pan dwi wedi cael hynny fy hun."


Bu prentisiaeth Ffion gyda Cerebra yn help iddi nodi ei sgiliau a'i thalentau, ac mae hi'n edrych ymlaen at ddyfodol disglair o'i blaen. Meddai Ffion, "Ar hyd fy oes, dwi wedi bod yn derbyn negyddiaeth fy hun a ddim yn derbyn positifrwydd fy hun, ac erbyn hyn mae'n hollol wahanol. Swydd wych, bywyd gwych."

# Hyfforddiant a digwyddiadau

## Cynhadledd flynyddol – Gallwn ni ei Weithio Allan

Roedd y gynhadledd flynyddol eleni yn edrych ar beth mae gwaith, swyddi a chyflogaeth yn ei olygu i bobl ag anabledd dysgu.

Gyda chyfyngiadau Covid yn parhau mewn grym fe wnaethon ni ymgasglu ar-lein am wythnos o drafod, ffilmiau, a straeon. Buom yn archwilio materion gwaith a'r hyn sydd angen ei newid i wneud y byd gwaith yn well i bobl ag anabledd dysgu. Gallwch wylio recordiadau o bob sesiwn yn ldw.org.uk/we-can-work-it-out.



**"Roeddwn i'n arbennig o hoff o'r fideos gan bobl ag anableddau dysgu oedd yn mynegi'r gwerth a'r manteision i'w bywydau o allu bod mewn gwaith cyflogedig."**

Ymunodd dros 200 o bobl â ni yn ystod yr wythnos, gyda thua 100 yn mynychu bob dydd. Rydym yn ddiolchgar i Drive, Gyrfaoedd Cymru, Cymru'n Gweithio, National Star, Base, Fforwm Gofal Rhieni Abertawe, Mirus a Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, a noddodd y digwyddiad.





## Deall hyfforddiant Colli Golwg gyda RNIB

Fe wnaethom ymuno â RNIB i godi ymwybyddiaeth a gwybodaeth am golli golwg a phobl sydd ag anabledd dysgu. Cynhaliwyd 6 sesiwn hyfforddi am ddim yn edrych ar wahanol fathau o golli golwg a sut gallai'r rhain effeithio ar ymddygiad pobl.

Mae'r cwrs yn rhoi arweiniad ar sut i sylwi ar yr arwyddion posibl o golli golwg a sut i ymateb i bobl sydd ag anabledd dysgu sydd yn colli eu golwg mewn ffyrdd effeithiol a'u cefnogi.

## Seminar cyflogaeth Awtistiaeth Cymru

Buom yn gweithio gydag Awtistiaeth Cymru i'w cynorthwyo i gynnal digwyddiad ar gyfer pobl ag awtistiaeth gydag anabledd dysgu neu heb anabledd dysgu. Roedd y digwyddiadau'n darparu gwybodaeth a sgiliau i helpu pobl i gael gwaith a'u cynnal.

## Cefnogi pobl i gyfathrebu ar-lein

Yn ystod y pandemig mae wedi bod yn hynod bwysig helpu pobl sydd ag anabledd dysgu i ddysgu sgiliau digidol newydd ac aros mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu ar-lein. I gefnogi hyn, parhawyd i weithio gyda Chymunedau Digidol Cymru i ddarparu hyfforddiant am ddim i weithwyr cymorth fel eu bod yn gallu helpu pobl ag anabledd dysgu i ddysgu'r sgiliau hyn.



# Ffrindiau Gigiau Cymru

Mae Ffrindiau Gigiau Cymru yn parhau i fod yn llwyddiant mawr yng Nghymru ac rydym yn falch o'r hyn mae 'r holl dîm wedi ei gyflawni. Ar ôl ehangu i ogledd Cymru yn 2020, eleni fe wnaethom ganolbwyntio ar dyfu'n well, yn hytrach nag yn fwy, ac roedd y flwyddyn yn orlawn o uchafbwyntiau!

Mae cael Ffrind Gig yn helpu oedolion ag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth i fwynhau bywyd cymdeithasol gwych gyda ffrind newydd. Ond mae llawer o effeithiau cadarnhaol eraill - gan gynnwys gwell iechyd meddwl, annibyniaeth uwch, dewis go iawn a rheolaeth, cyfleoedd i wirfoddoli a chyflogaeth, profiadau newydd, a bod yn fwy gweladwy yn eu cymunedau.

I helpu ein Ffrindiau Gigiau i gadw mewn cysylltiad fe wnaethom barhau â'n cymdeithasu rhithiol, ac mae hynny wedi arwain at greu cyfeillgarwch newydd ledled Cymru, a Ffrindiau yn dysgu sgiliau digidol newydd. Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, roedden ni'n gallu dechrau cynnal digwyddiadau cymdeithasol yn bersonol a chefnogi Ffrindiau Gigiau i fynd yn ôl i gwrdd a mynychu digwyddiadau gyda'n gilydd.



**Wyt ti eisiau gwirfoddoli fel Ffrind Gig? Rydyn ni'n chwilio am bobl o bob oed, gyda phob diddordeb. Darganfyddwch fwy a gwneud cais ar ffrindiaugigiau.org.uk.**

## De Cymru

Trwy gydol y flwyddyn buom yn hyrwyddo Ffrindiau Gigiau drwy weithio gyda phartneriaethau newydd a phartneriaethau presennol, gan gynnwys CVCs, lleoliadau celfyddydol ac elusennau eraill. Gyda chyfyngiadau'n dechrau codi, roeddem yn gallu cynnal stondinau – gyda chymorth rhai o'n Ffrindiau – i recriwtio gwirfoddolwyr a chyfranogwyr newydd ym Mhrifysgol Caerdydd, Canolfan Gelfyddydau Chapter a sioe Idles a werthwyd allan yn Arena Motorpoint Caerdydd.



Un cydweddiad llwyddiannus fu un Shan a Menatalla. Mae'r ddau yn hoff iawn o gerddoriaeth jazz, dawnsio a mynd i'r theatr ac yn gydweddiad annhebygol mewn rhai ffyrdd oherwydd eu gwahaniaeth oedran a'u cefndiroedd diwylliannol, ond fe wnaethon nhw fondio'n gyflym iawn. Dywedodd Shan "Mae Ffrindiau Gigiau yn fy helpu i deimlo'n fwy hyderus ac mae Mena yn berson hyfryd, caredig iawn. Mae hi'n ffonio fi i weld sut dwi'n dod ymlaen... Dwi'n caru dawnsio a dwi'n licio gwisgo fyny i fynd allan".

**Shan, Cyfranogwr Ffrindiau Gigiau**

**Cymdeithasol**

Mae ein cymdeithasu yn rhoi cyfle i bobl gwrdd â'i gilydd fel rhan o gymuned ehangach Ffrindiau Gigiau, dod o hyd i barau mewn ffordd naturiol, archwilio digwyddiadau a phrofiadau newydd, a chael hwyl!

Ym mis Mehefin 2021 fe wnaethom gynnal ein digwyddiad cymdeithasol awyr agored 'pellter cymdeithasol' cyntaf - achlysur pwysig lle cyfarfu bron i 40 o bobl am ddiodydd, bwyd a bingo. Ymhlith y digwyddiadau eraill, roedd: gigiau; cabaret drag; theatr ymgolli; a'n digwyddiad 'mêts cyflymdra' cyntaf un - ffordd syml ond effeithiol i greu parau newydd drwy wahodd Ffrindiau Gigiau heb gymar i ddod at ei gilydd a chael sgyrsiau cyflym am bethau maen nhw'n eu caru.

Un uchafbwynt arbennig oedd Drag Bingo. Yn ystod y cyfnodau clo , fe wnaeth Gareth Pahl ffurfio House of Deviant – grŵp drag gyda 3 o'n cyfranogwyr, Nicole, Sophie a Becky. Fe wnaethom weithio gyda House of Deviant i gyflwyno Bingo Drag yn Chapter, yng Nghaerdydd - noson wyllt a hwyliog, gyda pherfformiad drag a bingo, wedi ei chynnal gan y Deviants eu hunain.

## Gogledd Cymru

Ar ôl lansio ym mis Hydref 2020, mae gogledd Cymru wedi bod yn llwyddiant, gyda galw mawr ar draws y 6 sir. Yn ogystal â Ffrind Gig, roedd angen mwy o gymorth ar rai cyfranogwyr newydd yn eu bywyd, a thrwy ein rhwydweithio roeddem yn gallu eu cyfeirio at wahanol wasanaethau a sefydliadau.

Mae ein meithrin perthnasoedd wedi arwain at fentrau ar y cyd a chyfleoedd i Ffrindiau Gigiau. Buom yn cydweithio'n agos â Phrosiect Trawsnewid Gogledd Cymru wrth gyd-gynhyrchu 'y dyfodol'; codi materion ynglŷn â theithio; wedi gweithio gyda TAPE ar ddosbarth animeiddio; cawsant eu cyfweld gan Llwybrau Llesiant goraf radio Lleisiau Llawen; buont yn gweithio'n agos gyda chanolfannau celfyddydol; ac yn cydweithio â Chwmni Addysg Rhyw,



lle hyfforddwyd y cyfranogwyr i fod yn hyfforddwyr mewn weithdy rhyw a pherthnasoedd.

Fe wnaethom ddechrau sesiynau rheolaidd ar-lein ac wyneb yn wyneb i gefnogi gwirfoddolwyr sy'n cynnig gofod diogel i drafod profiadau gwirfoddolwyr a rhannu syniadau a phroblemau. Daeth gwirfoddolwyr i adnabod ei gilydd yn well ac roedden nhw'n gallu codi problemau a chwestiynau, gyda thrafnidiaeth yn fater cyffredin.

"Roeddwn i wir yn mwynhau bod allan a chael amser a chyfeillgarwch gyda phawb. Mae'n beth nad ydw i wedi ei gael o'r blaen gan nad ydw i wedi cael llawer o ffrindiau. O ran cyrraedd digwyddiad cymdeithasol mae'n gallu bod yn hunllef, ond dwi'n gwneud yn iawn os ydy'r bysus yn iawn. Os ydy e yn rhywle dwi ddim yn ei adnabod mae yn achosi ychydig o straen imi. Mae cael fy Ffrind Gig yno i fy atal rhag poeni sut mae cyrraedd adref hefyd yn help mawr. Aeth fy Ffrind Gig â fi adref sy'n dda wrth i mi fod yn poeni am sut y byddwn i'n cyrraedd adref o ddigwyddiad yn ddiweddarach gyda'r nos. Dwi ddim yn hoffi aros allan yn hwyr gormod."

**Dan, Cyfranogydd Ffrindiau Gigiau**

**Digwyddiadau Cymdeithasol**

O Orffennaf 2021, roedd y cyfranogwyr yn gallu dechrau cynllunio eu digwyddiadau cymdeithasol eu hunain, diolch i bot bach o arian o Gronfa Trawsnewid Gogledd Cymru. Fe wnaeth y grŵp gyfarfod 5 gwaith i drefnu digwyddiadau, gan gynnwys sut i drefnu mwy o ddigwyddiadau 'aros i fyny'n hwyr'.

Drwy gydol y flwyddyn buom yn cwrdd yn y Rhyl, Bangor a Llandudno, am wahanol ddigwyddiadau. Erbyn mis Ionawr fodd bynnag, bu cyfyngiadau Covid newydd yn ein gorfodi i gwrdd ar-lein ar gyfer sioe dalent rithwir i Gymru gyfan. Gwyliwch fideo ohonom ni'n bowlio mis Chwefror yn gymdeithasol: https://youtu.be/_r5pjFBnx9U.

Ym mis Mawrth rydym yn dathlu ein blwyddyn gyntaf gyda digwyddiad arbennig yn Academi, Bangor, gyda bandiau a DJ lleol a gwirfoddolwr Carl Anians. Wedi'i gynnal gan Ernie Sparkles (gwirfoddolwr Gareth Pahl), gyda phawb yn dawnsio'r noson i ffwrdd ac yn 'aros i fyny'n hwyr'.

Er bod cymdeithasu'n bwysig i gyfranogwyr gwrdd â phobl newydd a mwynhau profiadau newydd, maen nhw hefyd wedi rhoi cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu oddi wrth ei gilydd, tra'n datblygu eu dealltwriaeth o anabledd. Roedd ein digwyddiad ym mis Mawrth yn allweddol wrth herio canfyddiadau pobl.






Fe wnaeth 26 o redwyr godi arian inni yn Hanner Marathon Caerdydd mis Mawrth 2022. Rydym yn ddiolchgar i ymdrechion codi arian anhygoel yr holl redwyr.

## Cymru Gyfan

**Gig codi arian Idles**

Roeddem wrth ein bodd i ymuno â Dev, basydd y band poblogaidd o'r DU, Idles, ar gyfer gig codi arian ar-lein arbennig ym mis Mehefin. Estynnodd Dev allan atom ar ôl gweld yn uniongyrchol sut mae Ffrindiau Gigiau wedi gwella bywyd modryb ei bartner, sy'n un o'n cyfranogwyr yng Nghaerdydd.

Bu'r noson yn codi arian i Ffrindiau Gigiau Cymru a sefydlu Ffrindiau Gigiau Bryste. Cyrhaeddodd cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad ymhell ac agos, gan arwain at godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl ag anabledd dysgu i gael mynediad at gyfeillgarwch, gigiau, a rheolaeth dros eu bywyd cymdeithasol.

## Cyllido

Hoffem ddiolch i'n cyllidwyr, yr ydym yn hynod ddiolchgar i:

- Cymdeithas Tai First Choice am eu cefnogaeth a pharhau i ariannu Ffrindiau Gigiau Cymru ers i ni ddechrau yn 2018.
- Sefydliad Banc Lloyds, sy'n cynnal ein prosiect am 2 flynedd tan fis Mawrth 2023.
- Prosiect Trawsnewid Gogledd Cymru, sydd wedi rhoi cyllid i'n helpu i hwyluso cynllunio digwyddiadau cymdeithasol gan ein cyfranogwyr yng ngogledd Cymru.
- Innovate Trust, a roddodd rodd un tro inni.



# Pobl yr 21ain Ganrif

Pobl yr 21ain Ganrif

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Yn y Gymru fodern heddiw dylai pobl ag anabledd dysgu allu byw bywydau modern. Pobl yr 21ain Ganrif yw ein prosiect mawr sy'n ceisio gwneud hyn yn bosibl drwy gyd-greu dewisiadau, cyfleoedd a chefnogaeth i bobl sydd ag anabledd dysgu.**

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a nawr yn ei hail flwyddyn, mae Pobl yr 21ain Ganrif yn gweithio ar draws 4 o themâu i ddathlu pobl sydd ag anabledd dysgu fel crewyr, cyfranwyr, a dinasyddion Cymru, tra'n herio stereoteipiau sydd eisoes yn bodoli. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r cyllid ar gyfer y prosiect hwn yn cael ei ymestyn am 2 flynedd arall gan fynd â'r prosiect i fis Mawrth 2025. Darllenwch ymlaen am yr hyn a gyflawnwyd gennym ar draws y themâu hyn yn ystod y flwyddyn.

## Teuluoedd yr 21ain Ganrif

### Rhieni gydag anabledd dysgu

Parhawyd i weithio mewn partneriaeth â Pobl yn Gyntaf y Fro i gefnogi eu grŵp ar gyfer rhieni sydd ag anabledd dysgu, wrth iddynt gwrdd ar-lein ac wyneb yn wyneb. Ym mis Tachwedd 2021 fe wnaethom hefyd



ysgrifennu at y Prif Weinidog i godi ein pryderon am gau prosiect Ymbarel Action for Children oherwydd colli cyllid. Mae'r prosiect Ymbarel yn darparu cefnogaeth arbenigol i rieni gydag anableddau dysgu yng Nghaerdydd a'r Fro i'w galluogi i ofalu am eu plant yn ddiogel a lleihau'r risg y byddent yn cael eu cymryd i ofal. Rhyddhad mawr oedd clywed bod cyllid y prosiect wedi'i ymestyn am 12 mis ychwanegol yn fuan cyn yr oedd i fod i ddod i ben ym mis Ionawr 2022.

Yn ogystal â hyn, fe wnaethom ail-lansio ein rhwydwaith ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni ag anabledd dysgu ym mis Ionawr 2022 mewn digwyddiad ar-lein a fynychwyd gan dros 50 o bobl, gan gynnwys rhieni ag anabledd dysgu a gweithwyr proffesiynol. Roedd y siaradwyr yn cynnwys aelodau o grŵp rhieni Pobl yn Gyntaf y Fro yn sôn am brofiadau eu teuluoedd yn ystod y cyfnod clo, yn ogystal â rhannu eu syniadau ynghylch sut y gellid gwella'r gefnogaeth i rieni ag anableddau dysgu. Rydym hefyd wedi rhoi adborth i dîm ymchwil yr Athro

Ruth Northway ym Mhrifysgol De Cymru ar y canllawiau newydd drafft ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar gefnogi rhieni ag anableddau dysgu.




## Hyfforddiant i ofalwyr teulu mewn partneriaeth â Cerebra

Fe wnaethom barhau â'n gwaith partneriaeth gyda Cerebra i ddarparu gweithdai am ddim i rieni pobl sydd ag anabledd dysgu. Nod y gweithdai 'Mynediad at Wasanaethau' hyn yw helpu rhieni i weithio'n adeiladol gyda gwasanaethau lleol i wneud yn siŵr bod eu plant yn cael y gofal a'r gefnogaeth sy'n iawn iddyn nhw. Mae'r gweithdy ymarferol hwn yn rhoi awgrymiadau ac offer i rieni eu defnyddio wrth weithio gyda iechyd, addysg, a gwasanaethau cymdeithasol i gael y canlyniadau gorau i bobl sydd ag anabledd dysgu.

# Lleisiau'r 21ain Ganrif

## Senedd Ieuenctid Cymru

SENEDD IEUENCTID CYMRU WELSH YOUTH PARLIAMENT — SEFYDLIAD PARTNER / PARTNER ORGANISATION

Rydym yn llwyddo i ailymgeisio i fod yn sefydliad partner sy'n cefnogi 2 berson ifanc anabl i fod yn Aelodau yn ail Senedd Ieuenctid Cymru (2022-2024). Roeddem wedi datblygu a gweithredu proses ddethol hygyrch, gan gynnwys panel o bobl ifanc niwroamrywiol, i ethol 2 berson ifanc anabl o bob cwr o Gymru.



Roeddem yn falch iawn o gyhoeddi bod Georgia Miggins a Tegan Skyme wedi'u hethol yn Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru. Trafodwyd eu cefnogaeth unigol a'u hanghenion mynediad er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynnig cymorth i'r ddau mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fe wnaethom hefyd sicrhau bod staff Senedd Ieuenctid Cymru yn ymwybodol o'u hanghenion mynediad a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain. Fe wnaethon ni gefnogi Georgia a Tegan i fynychu 2 gyfarfod rhanbarthol ar-lein, a chyfarfod cyntaf Senedd Ieuenctid llawn Cymru yn Chwefror 2022.

## Cyflwyniad i sesiynau ar-lein Hawdd eu Deall

Yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig fe wnaethon ni addasu ein hyfforddiant hawdd ei ddeall poblogaidd i fod yn sesiwn blasu 2 awr yn rhad ac am ddim. Helpodd hyn i sicrhau bod mwy o bobl ag anabledd dysgu yn cael gwybodaeth hygyrch o ansawdd da yn ystod cyfnod o ddatblygiadau sy'n symud yn gyflym. Yn 2021-22 fe wnaethom ddarparu 12 cwrs arall am ddim.

# Pobl yr 21ain Ganrif

## Polisi a phobl - Grwpiau Trawsbleidiol ar Anabledd ac Anabledd Dysgu

Ar ôl trafod gydag Anabledd Cymru, cytunwyd y dylai rôl Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd ddychwelyd atynt gan fod ganddyn nhw gapasiti nawr i gymryd y gwaith hwn yn ôl. Rydym yn parhau i fod yn aelodau gweithgar o'r grŵp ac i gyfrannu ar faterion perthnasol.

Arweiniodd hyn at drafodaethau pellach yn y Consortiwm Anabledd Dysgu am yr angen i sefydlu Grŵp Trawsbleidiol newydd ar Anabledd Dysgu er mwyn mynd i'r afael â'r materion penodol sy'n wynebu pobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd yng Nghymru. Felly penderfynwyd gwahodd Aelodau o'r Senedd o bob plaid i ymuno â'r grŵp a chytunodd 3 i wneud hynny. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp newydd ym mis Mai 2022 pan etholwyd ein Rheolwraig Polisi a Chyfathrebu Samantha Williams yn ysgrifennydd. I gofrestru ar gyfer y rhestr bostio ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol newydd ar Anabledd Dysgu, anfonwch e-bost at samantha.williams@ldw.org.uk.

# Pobl iach yr 21ain Ganrif

## Archwiliadau Iechyd Blynyddol – adnoddau hawdd eu deall

Parhaodd ein gwaith o amgylch Archwiliadau Iechyd Blynyddol i gael ei effeithio gan y pandemig. Mae Archwiliadau Iechyd Blynyddol ar gael i unrhyw un sydd ag anabledd dysgu yng Nghymru sy'n 18 oed neu'n hŷn. Meddyg teulu neu nyrs mewn gwasanaethau gofal sylfaenol sy'n gwneud yr archwiliad ac mae'n cynnwys archwiliad corfforol, adolygiad meddygol a chwblhau cynllun gweithredu archwilio iechyd.




Roedd yr adnoddau hawdd eu deall a ddatblygwyd gennym gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael i feddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol ar-lein a chawsom drafodaethau rheolaidd am sicrhau eu bod ar gael i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd. Gobeithir y bydd y rhain yn cael eu llwytho i fyny yn fuan i wefan GIG 111 Cymru, dan reolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

## Lleihau arferion cyfyngol

Parhawyd i fynychu cyfarfodydd Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol ar-lein ac ymgysylltu â'r rhwydwaith i hyrwyddo cyfranogiad pobl ag ymddygiad heriol yn astudiaeth ymchwil Covid-19 (gweler tudalen XX am wybodaeth am yr astudiaeth). Gwnaethom gymryd rhan yn y digwyddiad lansio ar gyfer fframwaith newydd 'Lleihau arferion cyfyngol' newydd Llywodraeth Cymru fel panelydd a mynychu'r gynhadledd Lleihau Ataliad 2 ddiwrnod yn Leeds.




Rydym yn rhan o drafodaethau gyda Gwella Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ynghylch y posibilrwydd o gynnal cyfres o ddigwyddiadau ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o arferion cyfyngol a'r fframwaith newydd ymhlith pobl gydag anabledd dysgu a'u teuluoedd/gofalwyr.

# Byw yn yr 21ain Ganrif

## Cysylltiadau Cymru

Mae ein rhwydwaith Cysylltiadau Cymru yn dod â phobl at ei gilydd i archwilio a chreu ffyrdd o leihau unigrwydd ac unigedd cymdeithasol. Daeth 35 o bobl i'n hail gyfarfod ar-lein lle buom yn sôn am ffyrdd creadigol o feithrin cysylltiadau a chyfeillgarwch, a sut mae cylchoedd o gefnogaeth yn helpu pobl i gynllunio bywyd da. Cynyddodd aelodaeth y rhwydwaith i 178 yn ystod y flwyddyn. Yn anffodus cafodd ein trydydd cyfarfod ei ganslo oherwydd bod staff yn sâl gyda Covid.

Buom yn cydweithio'n agos gyda grŵp prosiect 'Cynghrair er Gwell Dyfodol' Trawsnewid Gogledd Cymru, gan gyd-gynhyrchu yng Ngogledd Cymru. Ymhlith y pynciau a materion gafodd eu harchwilio roedd Ffrindiau Gigiau, trafnidiaeth, a chysylltu yng ngogledd Cymru. I ymuno â'r rhwydwaith anfonwch e-bost at karen.warner@ldw.org.uk.

## Technoleg bersonol

All Wales personalised technology community of practice

Fe wnaethom gynnal cyfarfod ar-lein o'n cymuned ymarfer technoleg bersonol lle archwiliwyd rôl y staff a sut y gallant gefnogi pobl sydd ag anabledd dysgu gyda thechnoleg. Er hynny cafodd ein hail gyfarfod ei ganslo oherwydd bod staff yn sâl gyda Covid. Ymunom â'r grŵp ehangach o Gynghrair Cynhwysiant Digidol lle buom yn mynychu 2 gyfarfod a chawsom farn am Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru. Erbyn hyn mae gennym 116 o aelodau'r rhwydwaith. I ymuno â'r grŵp anfonwch e-bost at karen.warner@ldw.org.uk.



# Gofalu am lesiant ein staff




Eleni gwelwyd ni'n dal i weithio o gartref trwy gyfres barhaus o gyfnodau clo.  Fel tîm roeddem yn fwy parod ar gyfer cadw mewn cysylltiad â'n gilydd dros Zoom a Teams, ac roeddem yn parhau i ddod at ein gilydd yn ein boreau coffi rhithiol. Dathlwyd y Nadolig yn gyfan gwbl ar Teams, ond roeddem wrth ein boddau i allu dathlu wyneb yn wyneb ym mis Chwefror pan godwyd y cyfyngiadau.

Fe  wnaethom ddechrau dychwelyd i'r swyddfa mewn grwpiau bach yn ofalus, gan ddilyn canllawiau'r llywodraeth ar arferion gweithio diogel. Fe wnaeth staff wir fwynhau'r cyfle i gael cyswllt wyneb yn wyneb â chydweithwyr eto o'r diwedd.

Wrth gyflawni ein hymrwymiad i fod yn gyflogwr modern, cefnogol a hyblyg, fe wnaethom ddatblygu model hybrid o weithio a fydd yn cael ei gyflwyno yn haf 2022. Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd i staff rannu eu hamser gwaith rhwng y cartref a'r swyddfa os ydyn nhw'n dymuno.

# Ein staff

## Polisi a Chyfathrebu



Samantha Williams
Rheolwraig Polisi a Chyfathrebu

Kai Jones
Swyddog Cyfathrebu

Cath Lewis
Cath Lewis, Uwch Swyddog Ymchwil a Pholisi (tan fis Mawrth 2022)


## Hyfforddiant a Digwyddiadau



Simon Rose
Rheolwr Digwyddiadau a Rhwydweithiau

Inacia Rodrigues
Cydlynydd Digwyddiadau a Rhwydweithiau


## Hawdd ei Ddeall Cymru



Julie Jones
Swyddog Cyfathrebu Hygyrch


Laura Griffiths
Uwch Swyddog Cyfathrebu Hygyrch

Inacia Rodrigues
Swyddog Cyfathrebu Hygyrch



Zoe Richards
Prif Weithredwr

## Engage to Change




Angela Kenvyn
Rheolwraig Ymgysylltu â Newid

Sophie Williams
Swyddog Cyfathrebu Engage to Change

Gerraint Jones-Griffiths
Llysgennad Engage to Change

Grace Krause
Swyddog Polisi Engage to Change

## AD a Chyllid



Ian Cullimore
Swyddog Cyllid (tan Mawrth 2022)

Zhanar Tabeyeva
Uwch Swyddog Cyllid

Joanne Moore
Rheolwraig Adnoddau Dynol a Llywodraethiant

## Arloesedd



Kylie Smith
Cydlynydd Prosiect Ffrindiau Gigiau De Cymru

Rachel Somerville
Cydlynydd Prosiect Ffrindiau Gigiau Gogledd Cymru


Karen Warner
Rheolwraig Arloesedd

Kai Jones
Cydlynydd Prosiect Ffrindiau Gigiau De Cymru

Heather Graham
Cydlynydd Prosiect Ffrindiau Gigiau Gogledd Cymru

Danielle Wagstaff
Cydlynydd Gweinyddu a Chyfathrebu Prosiect Ffrindiau Gigiau (o ionawr 2022)

## Cefnogaeth



Rhobat Bryn Jones
Gweinyddwr

# Ein hymddiriedolwyr ac aelodau

## Ymddiriedolwyr


| Cymuned o Ddiddordeb Cynrychiolwyr Aelod llawn | Nifer y Seddi | Ymddiriedolwyr | Cynrychioli |
|---|---|---|---|
| Darparwyr Oedolion | 2 | Steve Cox<br>Mandy Evans | Perthyn<br>mirus Cymru |
| Hunaneiriolaeth | 2 | Michael Allcock<br>Dawn Gullis<br>Joe Powell | Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan<br>Pobl yn Gyntaf Caerdydd<br>Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan |
| Gofalwyr Teulu | 2 | Jacqui Caldwell | Cyswllt Conwy |
| Darparwyr Cymorth i Deuluoedd | 2 | Alison Thomas | Grŵp Pobl |
| Cyflogaeth gyda chefnogaeth | 1 | Lily Beyer | Prosiect SEARCH DFN |
| **Seddi Agored** | **Nifer y Seddi** | | |
| Unigolion sydd â diddordeb | 5 (hyblyg) | Jon Day<br>Sian Owen<br>Laura White<br>Ian Benbow<br>James Donaldson<br>Al Lewis<br>Stephen Barnard<br>Wayne Crocker | |

**Ymgynghorwyr:**
Steve Beyer, Kathryn Whitfield a Michael Allcock a symudodd o Ymddiriedolwr i Ymgynghorydd ym mis Mehefin 2021.

## Ein haelodau


| | |
|---|---|
| **Llawn** | 80 |
| **Cyswllt** | 120 |

# Sut y gwnaethon ni wario ein harian



## Arian a gawsom eleni

| | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru | £385,531 (13.87%) |
| Prosiectau DU | £2,151,926 (77.44%) |
| Hyfforddiant a digwyddiadau | £7,690 (0.28%) |
| Ymgynghoriaeth, rhwydweithiau a gwasanaethau cynnal | £197,082 (7.09%) |
| Rhoddion | £34,066 (1.23%) |
| Llog Banc | £2,622 (0.09%) |
| **Cyfanswm** | **£2,778,917 (100.00%)** |



## Arian rydyn ni wedi ei wario eleni

| | |
|---|---|
| Staff a theithio | £598,367 (22.48%) |
| Grantiau i Bartneriaid Prosiect y DU | £1,884,100 (70.78%) |
| Cyrsiau a chynadleddau | £2,124 (0.08%) |
| Gofalu am ein hadeilad | £54,259 (2.04%) |
| Digwyddiadau prosiect | £32,119 (1.21%) |
| Rhedeg y swyddfa | £19,540 (0.73%) |
| Costau llawrydd | £42,540 (1.60%) |
| Cyfieithu | £22,148 (0.83%) |
| TAW na ellir ei adennill | £888 (0.03%) |
| Ffioedd archwilio | £4,380 (0.16%) |
| Dibrisiad | £1,438 (0.05%) |
| **Cyfanswm** | **£2,661,903 (100.00%)** |

## Canlyniad diwedd y flwyddyn:

**Mae'r gwarged o £117,014 yn cynnwys gwarged anghyfyngedig o £95,892 a gwarged cyfyngedig o £21,122 cyn trosglwyddiadau.**

# Ein blwyddyn mewn rhifau



## Dylanwadu ar bolisi

Mynychu 6 cyfarfod Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu

170 o bobl wedi ymuno â ni ar gyfer 2 ddigwyddiad astudiaeth Covid ar-lein

Wedi ymateb i 22 o ymgynghoriadau

## Hawdd ei Ddeall Cymru



156 dogfennau hawdd eu deall



49 o gleientiaid

## Rhoi gwybod i chi

32,498 ymweliad â gwefan

80,543 o dudalennau gwefan wedi ymweld â nhw

1 tudalen adnoddau coronafeirws wedi'i diweddaru'n rheolaidd

7,880 o ddilynwyr Twitter

5,214 dilynwyr Facebook

Cyhoeddi 36 o erthyglau newyddion ar y wefan

## Hyfforddiant a digwyddiadau

Daeth 290 o bobl i ddigwyddiadau ar-lein yn ein cynhadledd flynyddol, Gallwn ni ei Weithio Allan

16 o weithdai ar-lein yn ystod Gallwn ni ei Weithio Allan

3 sesiwn ar-lein am ddim yn cefnogi pobl i fynd ar-lein

12 sesiwn ar-lein am ddim ar wneud gwybodaeth hawdd i'w ddeall

## Engage to Change

88 o bobl ifanc wedi dechrau gwaith cyflogedig

43 o bobl ifanc yn parhau i gael gwaith

57 o bobl ifanc wedi dechrau interniaethau

## Ffrindiau Gigiau

50 o barau Ffrindiau Gigiau wedi eu gwneud ledled Cymru

11 o ddigwyddiadau cymdeithasol wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal ledled Cymru

Gwyliodd 10,000 o bobl ein digwyddiad codi arian llif byw a drefnwyd gan Dev o Idles

26 o redwyr yn codi arian yn Hanner Marathon Caerdydd